**COFNOD O BENDERFYNIADAU'R CABINET - 15 MEDI 2020**

**Presenoldeb**

**Cynghorwyr** - HJ David, HM Williams, D Patel, CE Smith, PJ White (a'r Cynghorydd CA Green ar gyfer eitem 5 ar yr agenda.)

**Swyddogion -** M Shephard, L Harvey, C Lewis, H Picton, Z Shell, M Morgans, MA Galvin, M Pitman, D Exton, N Bunston, J Davies, L Kinsey, R Davies, K Watson, J Nightingale

| Teitl yr Adroddiad | **Rheoli Ansawdd Aer Lleol - Adroddiad Cynnydd Blynyddol** |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Bod y Cabinet:<br>(1) Yn nodi ac yn derbyn canlyniadau gwaith monitro ansawdd yr aer a gasglwyd yn 2019.<br>(2) Yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth ddatblygu Cynllun Gweithredu Ansawdd yr Aer ar gyfer Stryd y Parc, ac yn cymeradwyo'r penderfyniad i fwrw ymlaen â'r asesiadau trafnidiaeth ac ansawdd aer manwl er mwyn helpu i fesur effaith bosibl y mesurau a ffafrir ar ansawdd yr aer ar Stryd y Parc, Ardal Rheoli Ansawdd yr Aer Pen-y-bont ar Ogwr<br>(3) Yn cytuno ar gwblhad Adroddiad Cynnydd Blynyddol 2020 (wedi'i atodi yn Atodiad 1 yr adroddiad) i'w gyflwyno fel fersiwn derfynol i Lywodraeth Cymru cyn 30 Medi 2020. |

| Teitl yr Adroddiad | **Panel Adfer Trawsbleidiol - Canfyddiadau ac Argymhellion Cam 1** |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Bod y Cabinet:<br>a) Wedi ystyried canfyddiadau ac argymhellion y Panel Adfer Trawsbleidiol (Atodiad A yr adroddiad), sydd wedi cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol yn rhan o'r broses adfer, er mwyn cyfrannu at alinio Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor a'r Cynllun Corfforaethol wrth fynd ymlaen; ac<br>b) Yn nodi y bydd gwaith y Panel Adfer Trawsbleidiol yn parhau ac y bydd argymhellion pellach yn cael eu hadrodd wrth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol a'r Cabinet i'w cymeradwyo. |

| Teitl yr Adroddiad | **Cynllun Adfywio Glannau Porthcawl: Safleoedd Salt Lake a Sandy Bay** |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Bod y Cabinet:<br>(1) Yn nodi'r bwriad i gyflwyno fframwaith defnydd tir yn rhan o broses y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Cynllun Adfywio Porthcawl. |

| | |
|---|---|
| | (2) Yn nodi'r cynnig i farchnata ar gyfer gwerthu'r tir sy'n rhan o The Green a maes parcio Salt Lake i'w ddefnyddio fel safle ar gyfer siop fwyd.<br><br>(3) Yn cymeradwyo penderfynu awdurdodi swyddogion i gymryd yr holl gamau angenrheidiol er mwyn caffael y tir wedi'i farcio'n goch ar y cynllun sydd wedi'i atodi, gan gynnwys yr holl gamau paratoadol i lunio gorchymyn prynu gorfodol er mwyn galluogi datblygiad cynhwysfawr Cynllun Adfywio Porthcawl. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Gwasanaeth Mewnol i Ddioddefwyr Cam-drin Domestig** |
| Y Penderfyniad a Wnaed | Bod y Cabinet yn cytuno i ohirio'r eitem hon er mwyn ceisio ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Cynllun Atal ac Ymateb Covid-19 ar gyfer Rhanbarth Cwm Taf Morgannwg** |
| Y Penderfyniad a Wnaed | Bod y Cabinet yn nodi'r adroddiad a'r atodiadau ac yn cymeradwyo Cynllun Atal ac Ymateb COVID-19 ar gyfer Rhanbarth Cwm Taf Morgannwg, |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Diweddariadau i'r Cynllun Corfforaethol 2018-2022 a adolygwyd ar gyfer 2020-21, yn sgil effaith Covid-19.** |
| Y Penderfyniad a Wnaed | Bod y Cabinet yn cymeradwyo diweddariadau i Gynllun Corfforaethol 2018-22 a adolygwyd ar gyfer 2020-21, yn Atodiad A yr adroddiad, ac yn argymell y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r Cynllun Corfforaethol diwygiedig yn Atodiad B, gyda'r cafeatau a ganlyn:<br><br>1. **Atodiad A - Amcan Llesiant 1 - Cefnogi Economi Gynaliadwy Lwyddiannus - Maes Blaenoriaeth: Twf a Ffyniant** - Naratif pellach i'w gynnwys ynghylch y gwaith sy'n cael ei gyflawni i leihau nifer yr adeiladau gwag yng nghanol trefi a hyrwyddo'r economi ar gyfer yr eiddo manwerthu sy'n cynnal busnes ar hyn o bryd.<br><br>**2. Atodiad A - Amcan Llesiant 2 - Helpu Pobl a Chymunedau i fod yn fwy Iach a Gwydn.**<br><br>a) Wrth gyfeirio at weithio mewn partneriaeth, ychwanegu at hyn drwy gynnwys y 3ydd sector, yn ogystal â Chynghorau Tref a Chymuned a Grwpiau Cymunedol.<br>b) Ychwanegu darpariaeth ynghylch y gwaith sy'n mynd rhagddo i gefnogi rhai sy'n 'cysgu ar y stryd' i'w cadw oddi ar y stryd, yn ogystal â'r gwaith sy'n mynd rhagddo i gefnogi rhai sy'n ddigartref.<br><br>**Cyffredinol**<br><br>3. Ychwanegu darpariaeth at y Cynllun Corfforaethol, ynghylch cefnogi gwaith sy'n mynd rhagddo â |

| | |
|---|---|
| | phartneriaid i gefnogi iechyd meddwl Oedolion a Phlant (yn enwedig yn sgil pandemig Covid-19), drwy ddatblygu Strategaeth a Chynllun Gweithredu cyfatebol. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Datblygu Cynllun Gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024** |
| Y Penderfyniad a Wnaed | Bod y Cabinet yn cymeradwyo ac yn mabwysiadu Cynllun Gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 yr Awdurdod. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Cynllun Cyflenwi Gwasanaeth - Ein Gweledigaeth 5 Mlynedd Strategol** |
| Y Penderfyniad a Wnaed | Bod y Cabinet:<br><br>(1) Yn nodi'r adborth a gafwyd drwy'r ymarfer cyfathrebu ac ymgysylltu a ystyriai gynnwys ac uchelgais y Cynllun Cyflenwi Gwasanaeth fel gweledigaeth ar gyfer gwella gwasanaethau.<br>(2) Yn cymeradwyo'r Cynllun Cyflenwi Gwasanaeth - Ein Gweledigaeth 5 Mlynedd Strategol 2020 - 2025 fel dogfen strategol briodol sy'n pennu sut mae'r Cyngor yn bwriadu gwella'r gwasanaethau a ddarperir ac a gomisiynir gan y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant;<br>(3) Yn dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wneud unrhyw ddiwygiadau sydd eu hangen i'r Cynllun cyn ei gyhoeddi, o ran ffigurau ariannol 2020/21. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Adolygiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o Berfformiad yr Awdurdod Lleol Ebrill 2019 - Mawrth 2020** |
| Y Penderfyniad a Wnaed | Derbyniodd y Cabinet yr adroddiad a chymeradwyo canfyddiadau AGC fel yr oeddent wedi'u cynnwys yn Atodiad yr adroddiad. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Adolygiad o Gylch Gorchwyl ac Aelodaeth Pwyllgor y Cabinet - Rhianta Corfforaethol** |
| Y Penderfyniad a Wnaed | Bod y Cabinet:<br>(1) Yn nodi goblygiadau lleol rhaglen waith Llywodraeth Cymru ac yn cymeradwyo cychwyn adolygiad o Gylch Gorchwyl ac Aelodaeth bresennol Pwyllgor y Cabinet - Rhianta Corfforaethol.<br>) Yn cymeradwyo sefydlu Gweithgor i gynnal yr adolygiad, o dan arweiniad y Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant, ac i gynnwys cydweithwyr corfforaethol a sylwadau gan bartneriaid allanol allweddol a phobl ifanc sydd yn derbyn gofal, neu wedi derbyn gofal, gan yr Awdurdod.<br>(3) Yn nodi y bydd canfyddiadau'r Gweithgor ac unrhyw ddiwygiadau a gynigir i Gylch Gorchwyl ac Aelodaeth Pwyllgor y Cabinet - Rhianta Corfforaethol yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Cabinet. |

| | |
|---|---|
| | |

| Teitl yr Adroddiad | **Polisi Teithio Dysgwyr** |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cynigiodd y Cabinet:<br><br>(1) Y dylid gohirio'r argymhelliad ynghylch pellteroedd statudol i ysgolion, ac y dylid disgwyl manylion cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ym mis Awst 2020, er mwyn i'r awdurdod lleol allu ystyried yn ystod y cylch sut rydym yn alinio canllawiau CBSPO â chynigion cyllido a therfynau statudol LIC.<br><br>(2) O ran trefniadau teithio ADY, bod EDSU yn ymchwilio i system lle gellir gwneud taliadau uniongyrchol i rieni, gwarchodwyr neu ofalwyr. Gallai hyn greu arbedion, gan ddefnyddio'r gyllideb i roi mwy o hyblygrwydd i rieni, gwarchodwyr a gofalwyr allu dewis o blith gwahanol ddulliau teithio.<br><br>(3) Yn unol â'r argymhelliad, cael gwared ag enghreifftiau penodol o'r amgylchiadau arbennig lle bydd yr awdurdod lleol yn darparu trafnidiaeth ar sail ddewisol ym Mholisi Trafnidiaeth Cartref/Ysgol yr awdurdod lleol.<br><br>(4) O ran Teithio Ôl-16 bod EDSU, ynghyd â Swyddogion Trafnidiaeth, yn parhau â'r drafodaeth a gychwynnwyd yn ddiweddar â First Cymru. Rydym yn ceisio ymgysylltu â First Cymru, darparwyr trafnidiaeth eraill y sector preifat, Coleg Pen-y-bont a darparwyr 16+ eraill er mwyn sicrhau arbedion ond, yn bwysicach, a fydd yn creu cyllideb a fydd yn rhoi "pàs teithio" i fyfyrwyr. Byddai hyn yn fwy hyblyg na'r drafnidiaeth draddodiadol o'r cartref i'r lleoliad addysg, a byddai'n ddatrysiad mwy aeddfed i bobl ifanc. Byddai hyn yn helpu i greu cenhedlaeth newydd o ddefnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus, ac yn cyd-fynd yn well â'r strategaeth a fabwysiadwyd yn ddiweddar gan CBSPO ar gyfer addysg 16+ a'r chweched dosbarth. Rhagwelir hefyd y ceir "rhwyd diogelwch" mwy confensiynol o ran trafnidiaeth ar gyfer nifer fach o fyfyrwyr sydd heb fynediad rhesymol at lwybrau trafnidiaeth gyhoeddus.<br><br>(5) O ran Trafnidiaeth Meithrin, derbynnir y pryderon a amlinellwyd yn yr adroddiad, a chydnabyddir na ellir parhau â'r ddarpariaeth trafnidiaeth meithrin ar ei ffurf bresennol, a bod angen ei newid yn y dyfodol agos oherwydd problemau iechyd a diogelwch. Cydnabyddir nad yr angen i dorri'r gyllideb sy'n ysgogi hyn, ond bydd yn rhaid i unrhyw ddatrysiad fod yn gost-effeithiol, gan nad yw'r swyddogaeth hon yn statudol. Gofynnir i swyddogion felly fynd ati'n ddi-oed i ymchwilio i gamau lliniarol addas er mwyn goresgyn y risgiau. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, defnyddio clustogau booster ac/neu drefnu hebryngwr ychwanegol ar bob bws, wedi'i hyfforddi'n benodol i oruchwylio teithwyr oed meithrin. Mae'r Cabinet yn gofyn i'r opsiynau eraill ac amcan o'r |

| | |
|---|---|
| | costau gael eu cyflwyno gerbron yr Aelodau ar y cyfle cyntaf yn rhan o adroddiad pellach. |

| Teitl yr Adroddiad | **Band B y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion - Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig** |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Bod y Cabinet:<br><br>• yn nodi canlyniad y broses gwerthuso addysg a safleoedd a gynhaliwyd yn gysylltiedig â'r cynnig i greu ysgol newydd yn lle Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig;<br>• yn cymeradwyo'r rhestr fer o opsiynau addysg i'w hystyried yn y cam Achos Busnes Amlinellol, fel y nodwyd yn 4.8 yn yr adroddiad;<br>• yn cymeradwyo symud safle iau Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig ymlaen i'r cam dichonoldeb fel y safle a ffafrir; ac<br>• yn cymeradwyo ystyried, fel yr opsiwn addysg a ffafrir, y cynnig i gael ysgol arall i gymryd lle Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig drwy'r broses astudiaeth dichonoldeb h.y. 2 ddosbarth mynediad a darpariaeth feithrin ac ynddi 75 o leoedd. |

| Teitl yr Adroddiad | **Penodi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol** |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cymeradwyodd y Cabinet yr argymhelliad i benodi'r Llywodraethwyr ALl a restrwyd ym mharagraff 4.1 yr adroddiad. |

| Teitl yr Adroddiad | **Y Cabinet, Pwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet a Phwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet** |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | (1) Bod y Cabinet yn cymeradwyo amserlen dyddiadau cyfarfod Pwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet a Phwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref 2020 a mis Ebrill 2021, fel yr amlinellwyd ym Mharagraffau 4.1.2, 4.2.1 a 4.3.1 yr adroddiad.<br><br>(2) Penodi'r Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar yn Aelod Arweiniol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, yn Hyrwyddwr Plant a Phobl Ifanc ac yn Gadeirydd Pwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet.<br>(3) Y dylid cymeradwyo'r broses ar gyfer penderfynu ar wahoddedigion i Bwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet fel yr amlinellir ym mharagraff 4.2.3 (yr adroddiad).<br>(4) Y dylid penodi'r Aelod Cabinet Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol yn Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac yn Gadeirydd Pwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet.<br>(5) Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r gwahoddedigion a enwebwyd i Bwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet ar sail 4 Aelod o'r Grŵp Llafur, 2 Aelod o'r Grŵp Ceidwadol, 2 Aelod o Grŵp y Gynghrair Annibynnol ac 1 yr un o blith Aelodau Annibynnol Llynfi a Grŵp Plaid Cymru, |

| | |
|---|---|
| | fe yr amlinellwyd yn 4.3.3 yn yr adroddiad. |
| Teitl yr Adroddiad | **Adroddiad Gwybodaeth i'w Nodi** |
| Y Penderfyniad a Wnaed | Bod y Cabinet yn cydnabod cyhoeddi'r ddogfen a nodwyd yn yr adroddiad. |